Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu ar gyfer Practis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

## Pwllheli Dental Care, Pwllheli

**Dyddiad yr arolygiad:** 19 Mai 2026

**Dyddiad cyhoeddi:** 19 Awst 2026

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau amgen gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copi o bob adroddiad, pan gaiff ei gyhoeddi, ar gael ar ein **gwefan** neu drwy gysylltu â ni:


**Yn ysgrifenedig:**

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

**Neu:**

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk



**ISBN Digidol 978-1-80853-167-5**



**© Hawlfraint y Goron 2026**




# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw rheoleiddiwr ac arolygiaeth annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein Diben

Rydym yn gwirio diogelwch ac ansawdd gofal iechyd ledled Cymru.

## Ein Gwerthoedd

Rydym yn rhoi pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn.

**Rydym yn:**

**Annibynnol** – rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud.

**Gwrthrychol** – rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth.

**Pendant** – rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws.

**Cynhwysol** – rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith.

**Cymesur** – rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae ei angen fwyaf.

## Ein Gweledigaeth

Dyfodol lle mae gofal iechyd yng Nghymru yn ddiogel, yn effeithiol ac o ansawdd uchel i bawb.

## Ein Blaenoriaethau

**Rhoi Pobl yn Gyntaf** – Byddwn yn canolbwyntio ar y risgiau mwyaf y mae pobl a chymunedau yn eu hwynebu wrth iddynt ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd nawr ac yn y dyfodol.

**Dysgu a Gweithio Gyda'n Gilydd** – Byddwn yn cydweithio â phartneriaid er mwyn rhannu gwersi a ddysgwyd ac ysgogi gwelliannau parhaus.

**Buddsoddi yn Ein Pobl** – Byddwn yn sicrhau bod ein pobl yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi, eu gwerthfawrogi a'u grymuso.

**Cymryd Camau sydd o Bwys** – Byddwn yn cymryd camau i wella ansawdd a diogelwch gofal iechyd ar gyfer dyfodol Cymru.



# Cynnwys


1. Yr hyn a wnaethom .......... 5

2. Crynodeb o'r arolygiad .......... 6

3. Yr hyn a nodwyd gennym .......... 11

   Ansawdd Profiad y Claf .......... 11

   Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol .......... 14

   Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth .......... 18

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad 21

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith .......... 22

Atodiad C – Cynllun gwella .......... 23

# 1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein gwefan.

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Pwllheli Dental Care, Pwllheli ar 19 Mai 2026.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o arolygwyr gofal iechyd AGIC ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn ar weithio i'r gwasanaeth i ni. Cwblhawyd cyfanswm o 13 o holiaduron gan gleifion a chwblhawyd dau gan aelodau o'r staff. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gawsom yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Noder bod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

# 2. Crynodeb o'r arolygiad

## Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod Pwllheli Dental Care yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i'r cleifion.

Nododd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC fod y gwasanaeth a ddarperir gan y practis deintyddol yn dda iawn.

Gwelsom y staff yn cyfarch y cleifion yn ddwyieithog mewn ffordd gwrtais a chyfeillgar, wyneb yn wyneb a thros y ffôn.

Roedd systemau a phrosesau ar waith i sicrhau bod y cleifion yn cael eu trin ag urddas a phroffesiynoldeb.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd mynediad da i'r adeilad i bobl anabl. Gallai pobl sy'n defnyddio cadair olwyn ac unigolion â phroblemau symudedd gael mynediad i un ddeintyddfa wedi'i lleoli ar y llawr gwaelod, y dderbynfa, yr ardal aros a'r toiledau
- Roedd trefniadau ar waith i ddiogelu preifatrwydd y cleifion, gan gynnwys mannau dynodedig i'r cleifion gael sgyrsiau preifat â'r staff
- Trin cleifion mewn ffordd ofalgar a chyfeillgar mewn deintyddfeydd sy'n diogelu eu hurddas.

## Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod Pwllheli Dental Care yn cydymffurfio â'r rheoliadau perthnasol sy'n gysylltiedig ag iechyd, diogelwch a lles staff a chleifion.

Roedd y tîm o staff yn dangos ffocws cryf ar ofal cleifion ac ymrwymiad clir i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel.

Roedd mesurau ar waith i sicrhau diogelwch a llesiant y staff ac ymwelwyr. Roedd yr adeilad mewn cyflwr da ac yn cynnwys cyfarpar wedi'i wasanaethu, ac nid oedd unrhyw beryglon. Roedd yr asesiadau risg cyfredol yn cynnwys tân, yr amgylchedd, ac iechyd a diogelwch.

Roedd y trefniadau ar gyfer atal a rheoli heintiau yn gadarn, wedi'u hategu gan bolisi ffurfiol. Roedd amserlenni glanhau yn cael eu dilyn, ac roedd cyfarpar diogelu personol a hylif diheintio dwylo ar gael i'r staff. Roedd gweithdrefnau ar waith i leihau anafiadau a achosir gan offer miniog ac i ymateb iddynt, ac roedd y staff clinigol wedi cael eu himiwneiddio rhag Hepatitis B. Roedd pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant atal a rheoli heintiau gorfodol.

Roedd ardal ddynodedig ar gael ar gyfer glanhau a sterileiddio (dihalogi) offer deintyddol.

Roedd trefniadau diogelu priodol ar waith i sicrhau bod y cyfarpar pelydr-X yn cael ei weithredu'n ddiogel ac yn gywir.

Roedd pob aelod o'r staff yn cael hyfforddiant adfywio cardiopwlmonaidd, ac roedd y cyffuriau a'r cyfarpar brys yn cael eu storio'n ddiogel a'u gwirio'n rheolaidd.

Gwelwyd tystiolaeth bod cofnodion clinigol da iawn yn cael eu cadw, a oedd yn dangos bod gofal yn cael ei gynllunio a'i roi er mwyn sicrhau diogelwch a llesiant y cleifion.

Roedd aelodau'r tîm deintyddol yn wybodus, yn broffesiynol ac yn dangos eu bod yn ymwybodol o sut i gael gafael ar gyngor ac arweiniad perthnasol pan fo angen.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd safle'r practis i'w weld mewn cyflwr da ac yn lân ac nid oedd unrhyw beryglon amlwg
- Roedd y deintyddfeydd yn lân, yn cynnwys digon o gyfarpar ac yn addas at y diben.
- Roedd cofnodion clinigol da iawn yn cael eu cadw

- Cafodd trefniadau effeithiol eu disgrifio a'u dangos mewn perthynas â diogelu
- Ystafell ddihalogi ddynodedig.

## Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod y staff yn darparu arweinyddiaeth dda, a bod llinellau atebolrwydd clir. Roedd ethos cryf a diwylliant cadarnhaol yn amlwg, ac roedd y staff yn anelu at ddarparu gofal o safon uchel i gleifion.

Rheolwr y practis oedd yn gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd a gwelsom ei bod yn ymrwymedig ac yn ymroddedig iawn i'r rôl ac i'r practis.

Nodwyd gennym fod y rheolwr cofrestredig wedi asesu a monitro ansawdd y gwasanaeth yn unol â gofynion y rheoliadau.

Gwelsom fod y tîm staff yn cydweithio'n dda iawn a'u bod yn ymrwymedig i roi gofal o safon uchel i'r cleifion.

Roedd adborth o'r arolwg staff yn gadarnhaol, gan nodi boddhad â diogelwch cleifion a safonau gofal. Dywedodd y staff eu bod yn cael eu cynnwys wrth wneud penderfyniadau a'u bod yn hyderus yn awgrymu gwelliannau.

Roedd cyfleoedd hyfforddi priodol ar gael i'r staff er mwyn iddynt gyflawni eu rolau, ac roedd pob aelod o'r staff wedi cael arfarniad staff. Gwelsom dystiolaeth fod tystysgrif briodol gan y Gwasanaeth Diogelu a Gwahardd ar gael ar gyfer pob aelod o'r tîm.

Roedd y trefniadau llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg ddigidol yn ddigonol, gan sicrhau cyfrinachedd cleifion a chydymffurfiaeth â Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2018.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd amrywiaeth o bolisïau ar gael yn hawdd i'r staff i'w helpu yn eu rolau
- Gwelsom bob aelod o'r staff, yn cynnwys y staff clinigol ac anghlinigol, yn gweithio'n dda iawn gyda'i gilydd fel rhan o dîm
- Roedd ffeiliau'r staff yn cael eu cynnal yn dda
- Proses sefydlu staff dda ar waith
- Roedd y practis yn cael ei reoli gan reolwr practis ymrwymedig ac ymroddedig
- Roedd pob aelod o'r staff clinigol wedi cael hyfforddiant perthnasol i'w rolau ac yn bodloni eu gofynion o ran Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP).

# 3. Yr hyn a nodwyd gennym

## Ansawdd Profiad y Claf

### Adborth gan gleifion

Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC o'r farn bod y gwasanaeth a ddarperir gan y practis deintyddol yn ‘dda’ neu'n ‘dda iawn’.

Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

> *"Byddwn yn bendant yn argymell y practis hwn. Gan fod y ddau ddeintydd yn broffesiynol iawn. Rydw i hefyd wedi cymryd fy nau blentyn o oedran ifanc, ac roedd y gwasanaeth yn gwneud iddynt deimlo'n gyfforddus ac yn hamddenol iawn."*
>
> *“Roedd y staff i gyd yn garedig ac yn groesawgar. Roeddwn i'n teimlo'n gyfforddus drwy gydol yr apwyntiad ac roedd y gofal yn drylwyr ac yn rhagorol."*
>
> *“Fel claf ers sawl blwyddyn, mae safon y gofal a'r triniaethau a gynigir yn dal i wneud argraff dda arnaf. Deintyddfa ragorol gyda staff medrus. Rwy'n ei argymell yn fawr.”*
>
> *“Mae'r practis hwn yn rhagorol - rwy'n teimlo'n ffodus iawn o gael deintydd mor dda.”*
>
> *“Practis croesawgar.”*
>
> *“Bob amser mewn hwyliau da ac yn barod i helpu.”*

## Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn

### Hybu iechyd a gwybodaeth i gleifion

Roedd deunyddiau hybu iechyd deintyddol ar gael a oedd yn golygu bod gwybodaeth ar gael i'r cleifion a allai eu helpu i ofalu am hylendid eu ceg.

Roedd rhestrau prisiau ar gyfer triniaethau deintyddol hefyd wedi'u harddangos yn glir wrth y dderbynfa.

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur fod y tîm deintyddol wedi rhoi cyfarwyddiadau ôl-ofal iddynt ar sut i gynnal iechyd y geg da.

### Gofal urddasol a pharchus

Roedd trefniadau addas ar waith i ddiogelu preifatrwydd y cleifion, gan gynnwys mannau i'r cleifion gael sgyrsiau preifat â'r staff.

Gwelsom y staff yn rhoi gofal i'r cleifion mewn ffordd urddasol a pharchus ac roeddent yn siarad â'r cleifion mewn ffordd gyfeillgar ac yn barod i'w helpu. Gwelsom fod drysau'r deintyddfeydd yn cael eu cadw ar gau yn ystod triniaethau er mwyn sicrhau preifatrwydd ac urddas y cleifion. Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod yn teimlo bod y staff yn y practis yn eu trin ag urddas a pharch.

Gwelsom fod y naw egwyddor ymarfer moesegol craidd, fel y'u nodwyd gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol, wedi'u harddangos yn yr ardal aros.

### Gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn

Dywedodd pob un o'r cleifion eu bod yn teimlo bod y tîm deintyddol yn eu helpu i ddeall yr holl opsiynau triniaeth ar yr adeg briodol. Dywedodd pob un o'r cleifion wrthym hefyd fod pethau bob amser yn cael eu hesbonio iddynt yn ystod eu hapwyntiad mewn ffordd y gallent ei deall.

Dywedodd pob un o'r cleifion wrthym fod eu hanesion meddygol yn cael eu cadarnhau cyn iddynt gael triniaeth. Gwelsom dystiolaeth i gadarnhau bod hanes meddygol y cleifion yn cael ei wirio a'i gofnodi yn y sampl o gofnodion cleifion a welsom.

Roedd pob claf yn cytuno ei fod yn cael digon o wybodaeth i ddeall risgiau a manteision yr opsiynau triniaeth a bod y costau yn cael eu nodi'n glir cyn cael triniaeth.

Gwelsom fod cynlluniau ac opsiynau o ran triniaethau wedi'u cofnodi yn y sampl o gofnodion cleifion a welsom. Roedd hyn yn golygu bod y cleifion yn cael gwybodaeth a oedd yn eu galluogi i wneud penderfyniad gwybodus am eu triniaeth.

## Amserol

### Gofal amserol

Gwelsom fod y staff yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod gofal deintyddol yn cael ei roi mewn modd amserol. Disgrifiodd y staff broses ar gyfer rhoi gwybod i'r cleifion am unrhyw oedi i amser eu hapwyntiad.

Dywedodd pob claf a gwblhaodd holiadur ei bod yn hawdd iawn cael apwyntiad pan oedd angen un arno.

Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion (12/13) a gwblhaodd yr holiadur eu bod yn gwybod sut i gael gafael ar y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe bai ganddynt broblem ddeintyddol frys ond dywedodd un wrthym nad oedd yn gwybod sut i wneud hynny. Roedd trefniadau argyfwng ar gael pe bai angen triniaeth ddeintyddol frys y tu allan i oriau ar gleifion. Roedd manylion cyswllt wedi'u harddangos wrth y brif fynedfa, ac wedi'u darparu ar neges y peiriant ateb, ar wefan y practis ac ar y daflen wybodaeth i gleifion.

## Teg

### Cyfathrebu ac iaith

Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion (9/13) a gwblhaodd holiadur mai Saesneg oedd eu dewis iaith.

Dywedwyd wrthym y byddai'r practis yn gwneud ymdrech i ddarparu gwybodaeth i gleifion yn eu dewis iaith a fformat.

Dywedwyd wrthym hefyd, pe bai angen, y gallai'r staff ddefnyddio gwasanaethau cyfieithu i'w helpu i gyfathrebu â chleifion nad Cymraeg na Saesneg oedd eu hiaith gyntaf.

Roedd gan y practis amrywiaeth o wybodaeth ddwyieithog i gleifion, gan gynnwys taflen wybodaeth i gleifion a oedd yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol gan y rheoliadau a pholisi cwynion.

### Hawliau a chydraddoldeb

Roedd polisi cyfle cyfartal ar waith. Roedd hyn yn golygu bod y practis yn ymrwymedig i sicrhau bod yr un cyfleoedd a'r un driniaeth deg ar gael i bawb.

Gwelsom fod mynediad da i'r adeilad. Gallai pobl sy'n defnyddio cadair olwyn a chleifion ag amhariadau symudedd gael mynediad i'r dderbynfa, yr ardal aros ac un ddeintyddfa.

# Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

## Diogel

### Rheoli risg

Roedd trefniadau addas ar waith i sicrhau diogelwch a llesiant y staff a'r cleifion sy'n ymweld â'r practis.

Roedd yr adeilad mewn cyflwr da, yn fewnol ac yn allanol, i bob golwg. Gwelsom fod pob ardal yn daclus ac nad oedd unrhyw beryglon amlwg.

Roedd cyfarpar diffodd tân ar gael mewn gwahanol leoliadau yn y practis, a gwelsom fod y cyfarpar hwnnw wedi cael ei wasanaethu yn ystod y 12 mis diwethaf. Roedd pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant tân. Gwelsom arwyddion 'Dim Smygu' yn y practis a oedd yn cadarnhau bod y practis yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ynglŷn â mangreoedd di-fwg. Roedd yr allanfeydd argyfwng yn weladwy ac roedd poster Iechyd a Diogelwch wedi'i arddangos.

Roedd gan y practis amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau ar waith, yn ogystal ag asesiadau risg, megis tân ac iechyd a diogelwch. Roedd yr holl asesiadau risg yn gyfredol ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Cawsom sicrwydd bod y safle yn addas at y diben, a gwelsom ddigon o ddogfennaeth a oedd yn dangos bod yr holl risgiau, yn fewnol ac yn allanol, i'r staff, ymwelwyr a'r cleifion wedi cael eu hystyried.

Gwelsom fod cynllun parhad busnes ar waith i sicrhau parhad y gwasanaethau a ddarperir a gofal diogel i'r cleifion.

### Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Roedd pob ardal o'r practis yn lân yr olwg ac roedd pob claf yn teimlo bod y clinig yn 'lân iawn'. Gwnaeth rhai cleifion y sylwadau canlynol:

> "*Mae'r staff bob amser yn gwisgo masgiau a menig*."

> "*Dydw i erioed wedi dod ar draws unrhyw broblemau.*"

Roedd gan y practis ardal ddynodedig ar gyfer glanhau a sterileiddio (dihalogi) offer deintyddol. Roedd y cyfleuster yn lân iawn, yn drefnus, yn daclus ac roedd ganddo ddigon o gyfarpar.

Roedd y trefniadau dihalogi a oedd ar waith yn y practis yn dda. Dangosodd y staff y broses ddihalogi i ni a nodwyd y canlynol gennym

- Roedd y cyfarpar a ddefnyddir i lanhau a sterileiddio offer mewn cyflwr da.

- Roedd offer yn cael ei storio'n briodol a'i ddyddio.
- Roedd digon o gyfarpar diogelu personol i ddiogelu'r staff rhag anafiadau a/neu heintiau.
- Roedd gwiriadau cynnal a chadw dyddiol yn cael eu cynnal a'u cofnodi.
- Roedd cynwysyddion storio'r offer yn gadarn ac yn ddiogel.

Gwelsom fod y gweithdrefnau ar gyfer glanhau, sterileiddio a storio offer yn gyson â'r canllawiau arferion gorau cyfredol.

Roedd archwiliad rheoli heintiau wedi cael ei gwblhau gan ddefnyddio adnodd archwilio Addysg a Gwella Iechyd Cymru, sy'n cyd-fynd â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05.

Roedd rhaglen cynnal a chadw ddyddiol ar waith i wirio'r cyfarpar sterileiddio. Roedd cofnodlyfr yn cael ei ddefnyddio i gofnodi gwiriadau diogelwch ar yr awtoclaf ar ddechrau a diwedd y dydd.

Roedd rhestr wirio ar gyfer glanhau ym mhob deintyddfa, a gwelsom fod y rhestrau hyn wedi cael eu cwblhau'n rheolaidd.

Roedd polisi rheoli heintiau ar waith, a oedd yn cyfeirio at hylendid dwylo, trin a thrafod a gwaredu gwastraff clinigol yn ddiogel, trefniadau cadw tŷ a glanhau a hyfforddiant perthnasol.

Roedd trefniadau priodol ar waith i ymdrin ag anafiadau a achoswyd gan eitemau miniog. Gwelsom gofnodion ynglŷn â statws imiwneiddio Hepatitis B ar gyfer pob aelod o'r staff. Roedd hyn yn golygu bod camau priodol yn cael eu cymryd i sicrhau bod y cleifion a'r staff yn cael eu diogelu rhag feirysau a gludir yn y gwaed.

Roedd system ar waith i reoli gwastraff mewn ffordd briodol a diogel. Roedd dogfennaeth contract ar waith i waredu gwastraff peryglus (clinigol) a gwastraff nad yw'n beryglus (gwastraff cartref). Gwelsom fod yr holl wastraff wedi cael ei ddidoli a'i roi yn y bagiau a'r cynwysyddion dynodedig yn unol â'r dull gwaredu cywir.

## Rheoli meddyginiaethau

Roedd gweithdrefnau addas ar waith i ymateb i argyfyngau meddygol cleifion. Roedd pob aelod o'r staff clinigol wedi cael hyfforddiant adfywio cardiopwlmonaidd (CPR). Roedd gan y practis wyth swyddog cymorth cyntaf hyfforddedig.

Roedd y cyffuriau brys yn cael eu storio'n ddiogel. Roedd system ar waith i archwilio'r cyffuriau a'r cyfarpar brys er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol ac yn barod i'w defnyddio, yn unol â'r safonau a bennwyd gan Gyngor Adfywio'r DU.

Dywedwyd wrthym fod pob aelod o'r staff yn cael hyfforddiant priodol ar sut i ddefnyddio silindrau ocsigen fel rhan o'u hyfforddiant adfywio cardiopwlmonaidd blynyddol.

Roedd polisi ar waith ar gyfer archebu, cofnodi, rhoi a chyflenwi meddyginiaethau i gleifion. Dangosodd y staff eu bod yn gwybod pa weithdrefnau i'w dilyn pe bai argyfwng meddygol neu pe bai'n rhaid iddynt roi gwybod am ddigwyddiad a oedd yn ymwneud â meddyginiaeth.

### Diogelu plant ac oedolion

Roedd polisïau a gweithdrefnau ar waith i hyrwyddo a diogelu lles a diogelwch plant ac oedolion sy'n agored i niwed neu sy'n wynebu risg. Roedd y polisïau yn cynnwys manylion cyswllt y tîm diogelu lleol, ynghyd â siartiau llif manwl a oedd yn hysbysu'r staff am y camau gweithredu i'w cymryd pe bai mater diogelu yn codi.

Gwelsom dystiolaeth bod pob aelod o'r staff clinigol wedi cwblhau hyfforddiant diogelu plant ac oedolion agored i niwed. Y rheolwr cofrestredig oedd yr arweinydd diogelu enwebedig ac roedd wedi cwblhau hyfforddiant lefel tri.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn gallu mynegi unrhyw bryderon ynglŷn â gwaith yn uniongyrchol i reolwr y practis neu'r rheolwr cofrestredig, ac roeddent yn hyderus iawn y byddent yn gweithredu ar unrhyw bryderon.

Gwelsom fod polisi chwythu'r chwiban ar waith yn y practis.

### Rheoli dyfeisiau a chyfarpar meddygol

Edrychwyd ar y cyfleusterau clinigol a gwelsom eu bod yn cynnwys y cyfarpar perthnasol. Roedd y deintyddfeydd yn drefnus iawn, yn lân ac yn daclus.

Roedd yr holl gyfarpar pelydr-X mewn cyflwr da ac yn gweithio'n iawn. Roedd trefniadau ar waith i helpu'r staff i ddefnyddio'r cyfarpar pelydr-X yn ddiogel ac roedd archwiliadau sicrhau ansawdd rheolaidd yn cael eu cwblhau o ddelweddau pelydr-X. Gwelsom dystiolaeth fod pob aelod o'r staff clinigol wedi cwblhau'r hyfforddiant ymbelydredd ïoneiddio diweddaraf.

## Effeithiol

### Gofal effeithiol

Roedd trefniadau boddhaol ar waith ar gyfer derbyn cleifion, eu hasesu, rhoi diagnosis iddynt a'u trin. Roedd y trefniadau hyn wedi'u dogfennu yn y datganiad o ddiben ac mewn polisïau a gweithdrefnau. Dywedodd rhai cleifion wrthym:

> *"Gofal rhagorol."*

*"Mae'r staff yn bob amser yn sylwgar iawn! Roedd gen i ddannoedd cas iawn a gwnaethon nhw fy ngweld i'n syth.! Rwyf wedi bod yn glaf yma ers blynyddoedd ac rwy'n hapus iawn."*

## Cofnodion cleifion

Edrychwyd ar sampl o gofnodion deg claf. Ar y cyfan, gwelwyd tystiolaeth bod cofnodion clinigol da iawn yn cael eu cadw, a oedd yn dangos bod gofal yn cael ei gynllunio a'i roi gan ystyried iechyd a llesiant y cleifion.

Roedd pob cofnod wedi'i deilwra at yr unigolyn ac yn cynnwys dynodyddion cleifion priodol a'r rheswm dros yr apwyntiad. Roedd y cofnodion yn glir, yn ddarllenadwy ac o ansawdd da.

## Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

### Adborth gan Staff

Rhoddodd y staff a ymatebodd i holiadur AGIC adborth cadarnhaol.

Cadarnhaodd pob aelod o'r staff a ymatebodd fod y practis yn cyflogi staff a oedd wedi cael hyfforddiant addas a'u bod yn gallu ymdopi â gofynion amrywiol eu rôl. Cadarnhaodd pob aelod o'r staff ei fod wedi cael arfarniad blynyddol.

Roedd pob aelod o'r staff yn cytuno bod gofal cleifion yn brif flaenoriaeth a'u bod yn fodlon ar ansawdd y gofal a'r cymorth a ddarperir. Byddai pob aelod o'r staff a ymatebodd yn argymell y practis fel lle da i weithio ynddo ac roeddent yn cytuno y byddent yn hapus i ffrind neu berthynas dderbyn safon y gofal a ddarperir yn y practis.

Cadarnhaodd yr holl staff fod preifatrwydd ac urddas cleifion yn cael eu cynnal a bod cleifion bob amser yn cael gwybodaeth am benderfyniadau am eu gofal a'u cynnwys yn y penderfyniadau hynny.

## Arweinyddiaeth

### Llywodraethu ac arweinyddiaeth

Gwelsom fod arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir ar waith.

Rheolwr y practis oedd yn gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd a gwelsom ei bod yn ymrwymedig ac yn ymroddedig iawn i'r rôl. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn hyderus i godi unrhyw broblemau neu bryderon yn uniongyrchol â rheolwr y practis a/neu'r prif ddeintydd ac roedd pawb yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda yn eu rolau.

Roedd y staff yn glir iawn ac yn wybodus ynghylch eu rolau a'u cyfrifoldebau ac roeddent yn ymrwymedig i ddarparu gofal o safon uchel i'r cleifion, wedi'u cefnogi gan amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau. Roedd yr holl bolisïau a gweithdrefnau yn cynnwys dyddiad cyhoeddi a/neu adolygu, gan sicrhau eu bod yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a bod arferion yn gyfredol.

Roedd trefniadau priodol ar waith ar gyfer rhannu gwybodaeth drwy gyfarfodydd tîm ar gyfer y practis cyfan. Roedd amrywiaeth o bynciau perthnasol yn cael eu trafod yn ystod y cyfarfodydd hyn ac roedd cofnodion yn cael eu cadw.

Roedd pob aelod o'r staff clinigol wedi'i gofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac roedd yswiriant indemniad priodol ar waith i bob un ohonynt. Roedd gan y practis yswiriant atebolrwydd cyhoeddus cyfredol hefyd.

## Y Gweithlu

### Gweithlu medrus a galluog

Disgrifiodd rheolwr y practis y gwiriadau cyn cyflogi a oedd yn cael eu cynnal ar gyfer unrhyw aelodau newydd o'r staff. Roedd hyn yn cynnwys cadarnhau geirdaon a chynnal gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Cadarnhawyd gennym fod gan bob aelod perthnasol o'r staff wiriad dilys gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Roedd gan bob aelod o'r staff a oedd yn gweithio yn y practis gontract cyflogaeth ac roedd rhaglen sefydlu ar waith, a oedd yn cynnwys hyfforddiant ac yn ymdrin â pholisïau a gweithdrefnau perthnasol. Gwelsom hefyd fod arfarniadau staff wedi cael eu cynnal.

Roedd ffeiliau'r staff yn cynnwys y wybodaeth angenrheidiol i gadarnhau eu bod yn parhau i fod yn addas i gyflawni eu rolau. Roedd tystysgrifau hyfforddiant yn cael eu cadw ar ffeil fel sy'n ofynnol. Roedd pob aelod o'r staff clinigol wedi cael hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau a oedd yn berthnasol i'w rolau ac yn bodloni'r gofynion o ran Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP).

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig ei bod yn ymwybodol o'i dyletswyddau a'i rhwymedigaethau fel y'u nodwyd yn Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

## Diwylliant

### Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu

Roedd gweithdrefn gwyno ysgrifenedig ar waith. Roedd hon ar gael i bob claf yn yr ardal aros. Roedd manylion hefyd wedi'u cynnwys yn y daflen wybodaeth i gleifion ac yn y datganiad o ddiben.

Gwnaethom drafod y dull o geisio adborth gan y cleifion. Roedd y cleifion hefyd yn gallu rhoi adborth ar y cyfryngau cymdeithasol ac ar lafar yn y dderbynfa. Hefyd, roedd blwch sylwadau yn yr ardal aros.

## Dysgu, gwella ac ymchwil

### Gweithgareddau gwella ansawdd

Roedd yn amlwg iawn bod y staff yn y practis yn ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus. Rhoddwyd enghreifftiau i ni o archwiliadau amrywiol a oedd yn cael eu cynnal fel rhan o weithgarwch gwella ansawdd y practis. Roedd y rhain yn cynnwys archwiliadau o gofnodion y cleifion, pelydrau-X, atal a rheoli heintiau a dihalogi (cydymffurfiaeth â WTHM 01-05), gwastraff clinigol, amseroedd aros, mynediad, iechyd a diogelwch ac adborth cleifion.

Gwelsom fod aelodau'r tîm deintyddol yn rhagweithiol, yn wybodus ac yn broffesiynol, ac yn dangos eu dealltwriaeth o ble a sut i gael cyngor ac arweiniad.

Gwelsom fod y rheolwr cofrestredig wedi asesu a monitro ansawdd y gwasanaeth yn unol â gofynion y rheoliadau

## Camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae’n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi’n glir sut yr ymdrinnir â’r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i’r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi’u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a’r cyhoedd yr ymdrinnir â’r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw’r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o’r sefydliad ehangach
- Rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen ymdrin â'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd | Yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion | Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn. | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

# **Atodiad B** – Cynllun gwella ar unwaith

## Gwasanaeth: Pwllheli Dental Care

## Dyddiad yr arolygiad: 19 Mai 2026

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Canfyddiadau** | Nid oedd angen cynllun gwella ar unwaith ar gyfer yr arolygiad hwn. | | |
| **Yr hyn sydd angen ei wella** | | **Safon / Rheoliad** | |
| 1. | | | |
| **Camau Gweithredu gan y Gwasanaeth:** | | **Swyddog cyfrifol** | **Amserlen** |
| | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd o'r gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:**

**Enw (priflythrennau):**

**Swydd:** **Dyddiad:**

# **Atodiad C –** Cynllun gwella

## Gwasanaeth: Pwllheli Dental Care

## Dyddiad yr arolygiad: 19 Mai 2026

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| | Risg/canfyddiad/mater | Yr hyn sydd angen ei wella | Safon / Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **1.** | Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn ystod yr arolygiad hwn. | | | | | |
| **2.** | | | | | | |
| **3.** | | | | | | |
| **4.** | | | | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd o'r gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:**

**Enw (priflythrennau):**

**Swydd: Dyddiad:**